Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

# Ymarfer Hap-samplu
# gan y
# Panel Craffu

## Adolygiad o Achosion Troseddau Cyllyll
## (Mai 2019 - Tachwedd 2019)
## Gwarediadau y tu allan i'r Llys

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

**Ionawr 2020**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg .......... **Error! Bookmark not defined.**
2.1 Data cefndir .......... **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel .......... **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel .......... 5
5.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion ifainc .......... 5
6.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 8
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 11
7.1 Arfer da .......... 14
7.2 Meysydd sydd angen gwelliant .......... 14
8.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol .......... 14

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Warediadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion troseddau cyllyll yr ymdriniwyd â hwy drwy Waredlad y Tu Allan i'r Llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 22 achos. Roedd 9 yn ymwneud â drwdybiedigion ifainc a 13 yn ymwneud ag oedolion.

## 2.0 Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau arall posib a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o waredìadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf I S. J. Picoulo. (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 27 Ionawr 2020.

Llofnod: [signature]

Dyddiad: 27-7-20.

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Derbyniodd y Panel gyflwyniad ar yr ymagwedd 2 haen newydd tuag at Warediadau y Tu Allan i'r Llys a'r rhaglen Fraenaru, sef camau gweithredu a gymerwyd o gyfarfod diwethaf y Panel.

## 5.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd â dau o'r achosion drwy gyfrwng Rhybudd Ieuenctid, pedwar drwy Rybudd Amodol Ieuenctid, a thri drwy Ddatrysiad Cymunedol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |
| Priodol gydag amheuon | 4 |

## 5.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

**Achos 1**

Teimlai'r Panel y byddai Rhybudd Amodol Ieuenctid wedi bod yn fwy priodol yn hytrach na Rhybudd Ieuenctid gan y byddai cymryd rhan yn y rhaglen gyllyll wedi bod yn amod o'r gwarediad. Er bod yr unigolyn yn edifar, gan mai hwn oedd ei ail drosedd cyllell a'i fod wedi mynd â'r gyllell i'r ysgol, teimlai'r Panel fod ei ymddygiad wedi gwaethygu, felly byddai rhybudd amodol wedi sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn cymorth.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 2**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud ag unigolyn a gafodd ei ddal â chyllell stêc 6 modfedd yn ei feddiant. Rhoddwyd Rhybudd Amodol Ieuenctid i'r unigolyn. Oherwydd y sgôr matrics difrifoldeb a'r ffaith bod 158 digwyddiad ymddygiad gwael yn gysylltiedig â'r unigolyn, roeddent yn teimlo bod hyn yn briodol, er bod ganddynt amheuon. Roedd y Panel yn poeni pa un ai a fu unrhyw ddysgu o'r canlyniad hwn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 3

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â throseddwr a gafodd ei stopio a'i chwilio. Canfu bod cyllell glo ac ychydig o ganabis yn ei feddiant. Y canlyniad a roddwyd oedd Rhybudd, fodd bynnag, oherwydd difrifoldeb y drosedd a hanes yr unigolyn o ran troseddu, teimlai'r Panel y dylid o bosibl fod wedi dwysau hyn. Ni fyddai'r unigolyn yn cael mynediad i'r rhaglen troseddau cyllyll nac ymyrraeth er mwyn ceisio helpu i atal aildroseddu.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 4

Nododd yr Aelodau'n gadarnhaol bod adroddiad Swyddfa manwl a thrylwyr iawn wedi'i greu. Nid oedd gan yr unigolyn unrhyw hanes blaenorol, ac roedd wedi ildio'r ddwy gyllell i'r Heddlu. Nid oedd yr unigolyn wedi gwneud unrhyw fygythiadau â'r cyllyll. Gan hynny, teimlwyd bod Rhybudd Amodol Ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 5

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chanfod cyllell a gwn ffug ym meddiant unigolyn ifanc 17 oed. Er bod y canllawiau'n dweud y dylid cyhuddo unrhyw unigolyn 16 oed neu hŷn sy'n cael ei ddal ag arf â llafn neu arf bygythiol yn ei feddiant, teimlai'r Panel bod y canlyniad, sef Rhybudd Amodol Ieuenctid, yn briodol o ystyried yr amgylchiadau. Nododd y Panel fod rhesymau manwl pam yr oedd cyhuddiad yn amhriodol wedi'u cofnodi yn yr adroddiad. Roedd gan yr unigolyn bryderon Iechyd Meddwl, a byddai mynd i'r llys wedi bod yn niweidiol i'w iechyd a'i les. Gan hynny, er bod y canlyniad yn groes i'r polisi, penderfynodd y Panel mai'r gwarediad hwn oedd fwyaf priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 6

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chanfod cyllell ar ôl chwilio bag yr unigolyn. Rhoddwyd Rhybudd Amodol Ieuenctid i'r unigolyn, ac er bod hyn yn groes i'r polisi gan fod yr unigolyn dros 16 oed, teimlai'r Panel fod y gwarediad hwn yn briodol. Nid oedd yr unigolyn wedi gwneud unrhyw fygythiadau, a dywedodd fod y gyllell yn cael ei defnyddio ar gyfer cynnau brigau.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Roedd yr Aelodau'n fodlon â'r canlyniad, sef Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, gan fod yr unigolyn yn derbyn cymorth ac yn gweithio'n dda gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid. Gan fod yr unigolyn yn 15 oed, mae'r Polisi'n dweud y dylid rhoi Rhybudd Amodol. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, mae'r Panel yn teimlo bod angen diweddaru'r Polisi gan nad yw cyhuddiad bob amser yn ganlyniad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Cam Gweithredu:**

**Teimlai'r Panel bod angen diweddaru matrics ffactor difrifoldeb Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer gwaredu achosion troseddwyr ifainc. Oherwydd y polisi sydd wedi dyddio, mae anghysondeb ar draws Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â chanlyniad gwaredu troseddau cyllyll. Bydd CHTh yn trafod y posibilrwydd o gael canllawiau dros dro ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys gyda'r Prif Gwnstabl hyd nes y bydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu'n cyhoeddi'r canllawiau newydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.**

**Achos 8**

Teimlai'r Aelodau Panel bod y canlyniad, sef Datrysiad Cymunedol Ieuenctid, yn briodol ar gyfer yr achos hwn. Roedd yr achos yn ymwneud â chanfod cyllell glo ym meddiant plentyn 14 oed. Fel y nodir uchod, mae hyn yn groes i'r polisi ysgrifenedig, ond rhoddwyd rhesymau manwl yn yr adroddiad er mwyn cefnogi'r penderfyniad.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â phlentyn 12 oed â chyllell yn ei feddiant yn yr ysgol. Teimlai'r Panel fod lefel y gwarediad yn briodol, fodd bynnag, gan fod y gyllell wedi'i chanfod mewn ysgol, priodol gydag amheuon oedd asesiad y Panel.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 6.0 Ystyried achosion troseddau casineb – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel 13 achos oedolyn; ymdriniwyd ag 11 o'r achosion drwy gyfrwng Rhybudd, 1 drwy Rybudd Amodol, ac 1 drwy Ddatrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Priodol gydag Amheuon | 6 |
| Amhriodol | 5 |

### 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos:

**Achos 10**

Daeth y Panel i'r casgliad bod Rhybudd yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn lle yr aeth unigolyn i gyfeiriad â sbaner yn ei feddiant er mwyn diogelu ei hun rhag ofn y byddai helynt. Dangosodd yr unigolyn lle'r oedd y sbaner wedi'i guddio i'r heddlu, a chyfaddefodd yn llawn i'r drosedd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Digwyddodd y trosedd hwn pan ddaethpwyd o hyd i siswrn ym meddiant y troseddwr honedig. Dywedodd ei fod yn cario'r siswrn er mwyn amddiffyn ei hun. Nododd y Panel fod yr unigolyn yn agored i niwed, ac y gallai Rhybudd Amodol fod wedi bod yn fwy priodol er mwyn sicrhau y byddai'r unigolyn yn derbyn y cymorth yr oedd ei angen arno fel rhan o'r amodau.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 12**

Fel gyda'r achos uchod, teimlai'r Aelodau Panel y gallai Rhybudd Amodol fod wedi bod yn fwy priodol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn rhywfaint o

gymorth. Roedd gan y troseddwr bryderon iechyd meddwl, a theimlai'r Panel y byddai mynediad at gynllun dargyfeiriol wedi bod yn fwy priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 13**

Daeth y Panel i'r casgliad fod Datrysiad Cymunedol yn Amhriodol ar gyfer yr achos hwn o ganfod gwn ffug ym meddiant unigolyn mewn maes parcio coleg. Teimlai'r Panel y dylai'r achos hwn fod wedi'i ddwysau i Rybudd o leiaf, gan fod yr unigolyn yn mynd mewn i goleg ac roedd ganddo euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 14**

Mynegodd yr Aelodau Panel bryder bod yr achos hwn, lle y daethpwyd o hyd i unigolyn â chyllell yn ei feddiant mewn llyfrgell cyhoeddus, wedi ei waredu drwy rybudd. Teimlwyd y dylai'r canlyniad fod wedi'i ddwysau i rybudd amodol er mwyn i'r unigolyn dderbyn cymorth, neu gyhuddiad, gan fod y gyllell yn cael ei chario mewn man cyhoeddus ac roedd gan y troseddwr euogfarnau blaenorol o feddu ar arfau bygythiol fel unigolyn ifanc.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 15**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â chanfod cyllell ym meddiant y troseddwr wrth fynd mewn i lys ynadon. Dywedodd y troseddwr ei fod wedi anghofio bod y gyllell yn ei boced, ac ildiodd y gyllell o'i wirfodd. Fodd bynnag, roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r canlyniad gan fod y lleoliad yn fan cyhoeddus, ac roedd diffyg rhesymwaith dros gefnogi'r penderfyniad gwaredu yng nghofnod yr unigolyn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 16**

Roedd yr Aelodau Panel yn teimlo y dylai'r achos hwn fod wedi mynd i'r llys ac y dylai'r unigolyn fod wedi ei gyhuddo yn hytrach na derbyn Rhybudd. Cafodd y troseddwr ei ddal â llafn 3 modfedd a oedd yn edrych fel cerdyn credyd yn ei feddiant. Gan fod y llafn yn ymddangos fel cerdyn credyd, byddai'r unigolyn wedi gwybod fod hyn yn anghyfreithlon. Cytunodd y Panel y dylai'r mater fod wedi'i ddwysau.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 17**

Canfu cyllell glo ym meddiant y troseddwr, a rhoddwyd Rhybudd iddo. Teimlai'r Panel y gellid fod wedi dwysau hyn oherwydd tuedd y troseddwr i fod yn dreisgar a'i hanes o euogfarnau blaenorol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 18**

Daeth y Panel i'r casgliad fod Rhybudd yn ganlyniad priodol ar gyfer yr achos hwn. Canfu 2 gyllell a dryll yng nghar y troseddwr, fodd bynnag, esboniodd yr unigolyn mai cipar ydoedd. Oherwydd rheswm yr unigolyn dros fod â'r eitemau yn ei feddiant, teimlai'r Panel fod y gwarediad hwn yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 19**

Canfu cyllell ym meddiant y troseddwr yn yr achos hwn mewn ysbyty. Dywedodd ei fod wedi anghofio ei fod yn cario'r gyllell. Asesiad cyffredinol y Panel oedd bod y gwarediad hwn yn briodol, er bod ganddynt amheuon gan mai ysbyty oedd y lleoliad.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 20**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r unigolyn yn yr achos hwn. Roedd yn rhaid i swyddogion dynnu gwn taser allan er mwyn i'r troseddwr ildio'r gyllell. Teimlai'r Panel mai cyhuddiad fyddai'r canlyniad arferol, fodd bynnag, nodwyd bod gan yr unigolyn bryderon iechyd meddwl, ei fod yn agored iawn i niwed, ac nad oedd y cymdogion eisiau erlyn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 21**

Teimlai'r Aelodau Panel y dylid fod wedi mynd â'r achos hwn i'r llys a chyhuddo'r unigolyn yn hytrach na rhoi rhybudd iddo. Fel yn achos 16, daethpwyd o hyd i lafn a oedd yn ymddangos fel cerdyn credyd ym meddiant y troseddwr. Roedd holl aelodau'r Panel yn teimlo y dylai'r achos fod wedi mynd gerbron llys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 22**


Roedd yr Aelodau Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd, ac y dylai'r mater fod wedi'i ddwysau. Canfu potel o nwy CS ym meddiant y troseddwr. Hefyd, nodwyd bod y trosedd wedi'i gofnodi'n anghywir ar y system fel trosedd cyllell pan ddylai fod wedi'i gofnodi fel trosedd arfau saethu.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


| |
|---|
| **Cam Gweithredu:**<br><br>**Y Tîm Archwilio i Droseddau i ddiwygio'r cofnod ar gyfer achos 22 ar y system, a'i newid o drosedd cyllell i drosedd arf saethu.** |

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 326 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 a Hydref 2019, cafodd 57% eu hasesu'n briodol, 22% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan roedd cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn warediadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.



Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2019.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Hydref 2019.



### 7.1 Arfer Da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nifer o enghreifftiau o adroddiadau trylwyr a manwl yn cael eu hysgrifennu a'u darparu gan y Timoedd Troseddau Ieuenctid.

### 7.2 Meysydd sydd angen gwelliant

Roedd dau faes penodol ar gyfer gwella a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Trafodwyd yr angen ar gyfer Polisi matrics ffactor difrifoldeb newydd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer achosion troseddwyr ifainc sy'n ymwneud â gwaredu troseddau cyllyll. Mae angen canllawiau pellach ar Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â hyn er mwyn sicrhau bod y ffordd yr ymdrinnir â throseddau cyllyll yn gyson ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys gyfan.
- Teimlai'r Panel y dylai pump o'r achosion oedolion fod wedi'u dwysau i gyhuddiad, naill ai oherwydd difrifoldeb y sefyllfa, neu'r lleoliad lle y daethpwyd o hyd i'r unigolion â chyllyll yn eu meddiant, sef man cyhoeddus.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Panel yn dymuno edrych ar droseddau ymosod yn y cyfarfod nesaf.